Archwilio Cymru
Audit Wales

Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Tachwedd 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	14
Atodiadau	16
1 Ynglŷn â'n gwaith	17
Amdanom ni	19

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom adolygu pa un a oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau ar waith i gefnogi ei gyfrifoldebau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys sut mae'n gwneud penderfyniadau, yn goruchwylio'r defnydd o adnoddau, yn blaenoriaethu gwariant i sicrhau gwerth am arian, ac yn monitro perfformiad.

Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldeb o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 i baratoi cynllun trafnidiaeth rhanbarthol i annog "trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ei ardal".

3 Mae cynllun trafnidiaeth rhanbarthol yn allweddol i ddarparu'r manteision canlynol:

- **Economaidd**: yn darparu cysylltedd rhwng canolfannau allweddol, porthladdoedd, trefi, a dinasoedd gan roi hwb i symudedd, cynhyrchiant, a thwf rhanbarthol.
- **Cymdeithasol**: yn gwella mynediad at swyddi, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau, yn enwedig i gymunedau gweledig neu ddifreintiedig gan helpu i leihau anghydraddoldebau.
- **Amgylcheddol**: yn hyrwyddo teithio cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, a beicio), i leihau tagfeydd, allyriadau, a llygredd.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio trafnidiaeth, gan fabwysiadu dull pragmatig o reoli cyfyngiadau o ran cyllid ac adnoddau. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae prosiectau presennol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau awdurdodau lleol unigol ac mae adrodd ar berfformiad yn canolbwyntio ar weithgareddau. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau rhanbarthol wrth wneud penderfyniadau yn helpu i sicrhau gwerth am arian hirdymor.

Yr hyn a argymhellir gennym

5 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r argymhellion yn ymwneud â:

- Gwneud gwaith rheoli perfformiad yn gryfach i gefnogi trosolwg, gwneud penderfyniadau ac asesiadau gwerth am arian; a
- Gwella gwaith rheoli risg drwy nodi risgiau, rheolaethau effeithiol a gweithdrefnau uwchgyfeirio eglur.

Ein canfyddiadau

6 Mae ein hadolygiad wedi nodi themâu cyson o ddatblygiad camau cynnar a threfniadau sy'n esblygu wrth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig bontio o gynllunio i weithredu.

Amcanion Strategol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn darparu amcanion strategol eglur a fframwaith llywodraethu, ond nid yw'r rhain yn gweithredu fel y bwriadwyd eto.

7 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu fframwaith strategol eglur sy'n cyd-fynd â Llwybr Newydd[1], wedi'i atodi gan strwythurau llywodraethu diffiniedig a gweithio partneriaeth cryf. Mae trefniadau presennol yn bragmatig ac wedi'u harwain gan berthnasoedd, â phrosesau llywodraethu yn cael eu haddasu i gefnogi darpariaeth.

8 Er bod y trefniadau hyn yn gweithio, fe'u dylanwadir gan ddau ffactor trosiannol sy'n effeithio ar eglurder ac atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyllid am flwyddyn a ddyrennir gan awdurdodau lleol;
- blaenoriaethu cynlluniau a ysgogir yn lleol yn hytrach na rhaglenni rhanbarthol.

1 Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Cymru 2021

9 Mae gweithio ar y cyd cryf wedi galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnal darpariaeth a momentwm yn ystod y flwyddyn gyntaf. Er bod rhai ymyriadau rhanbarthol allweddol fel rhaglenni rheilffyrdd a chefnffyrdd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae darpariaeth ar draws y rhaglen ehangach yn ddibynnol ar gydgysylltiad anffurfiol i raddau helaeth. Heb fframwaith blaenoriaethu rhanbarthol wedi'i ddatblygu'n llawn, ceir perygl y gallai blaenoriaethau lleol a phenderfyniadau darparu allanol wanhau pwyslais rhanbarthol strategol y Cynllun.

10 Wrth i gyllid symud y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf ac i gynlluniau mwy a mwy cymhleth gael eu cyflwyno, mae trefniadau presennol yn creu perygl ar gyfer y dyfodol y gallai blaenoriaethau lleol a rhanbarthol sy'n cystadlu ddod yn fwy anodd eu cydbwyso. Heb fframwaith blaenoriaethu mwy cadarn ac sy'n cael ei weithredu'n gyson, gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig:

- leihau tryloywder yn y broses gwneud penderfyniadau;
- cael trafferth yn dangos gwerth rhanbarthol a chysondeb strategol;
- oedi cynlluniau rhanbarthol effaith uwch neu eu darparu yn aneffeithlon.

Sgiliau a Chapasiti

11 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dangos dealltwriaeth eglur sy'n esblygu o'r sgiliau, y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol.

12 Nododd fylchau o ran rheoli rhaglenni, arbenigedd technegol a'r gallu i ddarparu yn ystod datblygiad cynnar y Cynllun, ac ymatebodd yn bragmatig drwy:

- sicrhau cymorth allanol arbenigol;
- cryfhau arweinyddiaeth fewnol drwy secondiadau;
- sbarduno capasiti gan bartneriaid awdurdod lleol.

13 Mae aelodau wedi cynyddu eu dealltwriaeth o gyfrifoldebau trafnidiaeth rhanbarthol a darparwyd canllawiau pellach mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio awdurdodau lleol.

14 Mae'r camau hyn wedi cefnogi cynnydd cychwynnol a gwella cydgysylltiad. Fodd bynnag, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i ddatblygu model darparu adnoddau hirdymor cynaliadwy. Mae ansicrwydd o ran cyllid a heriau recriwtio yn parhau i gyfyngu ar y cyflymder y gall ddatblygu gallu yn llawn.

Llywodraethu a Throsolwg

15 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrthi'n datblygu trefniadau trosolwg a llywodraethu mwy effeithiol ac aeddfed. Dim ond yn ddiweddar y mae Is-bwyllgorau allweddol fel y pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Thrafnidiaeth Strategol wedi cael eu sefydlu ac nid ydynt yn cynnal cyfarfodydd yn aml.

16 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, is-bwyllgorau, awdurdodau lleol a phartneriaid wedi'u cyflwyno'n eglur ar draws y Cyfansoddiad, y cylch gorchwyl a phapurau pwyllgor.

17 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i fireinio ei drefniadau llywodraethu trwy ddiweddaru cylch gorchwyl a gofynion cworwm i wella effeithiolrwydd a galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud. Fe wnaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiwygio ei gylch gorchwyl i gael gwared ar yr angen am gynrychiolaeth aelod etholedig o bob cyngor cyfansoddol i sicrhau cworwm. Er bod y newid hwn yn sicrhau y gall penderfyniadau gael eu gwneud, mae'n creu'r perygl o leihau'r lefel o drosolwg os nad oes presenoldeb da mewn cyfarfodydd.

18 Mae'r Cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl yn neilltuo cyfrifoldebau eglur am wneud penderfyniadau a throsolwg o berfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i is-bwyllgorau. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig Board yn pennu cyfeiriad strategol ac yn gwneud penderfyniadau, tra bod yr Is-bwyllgor yn cydgysylltu darpariaeth, yn craffu ar berfformiad, ac yn adrodd ar gynnydd. Mae hyn yn gwahanu'r broses gwneud penderfyniadau a throsolwg yn eglur.

19 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn derbyn diweddariadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Fodd bynnag, ceir bylchau yn yr adborth i lawr gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig Board a rhannu gwybodaeth prin rhwng is-bwyllgorau sy'n cyfyngu:

- cysondeb ac eglurder ar flaenoriaethau;
- proses gwneud penderfyniadau ystwyth;
- trosolwg ac atebolrwydd;
- cydweithredu a rhannu gwybodaeth

Gwneud Penderfyniadau

20 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn wynebu heriau o ran sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng ystwythder a thryloywder yn ei broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dibynnu ar drafodaethau anffurfiol i gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau, ond mae hyn yn lleihau tryloywder. Ar yr un pryd, mae absenoldeb awdurdod wedi'i ddirprwyo yn gwella tryloywder ond yn arafu'r broses gwneud penderfyniadau. Wrth i raglenni dyfu, bydd gweithredu fframwaith gwneud penderfyniadau eglur yn helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gydbwyso'r blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu yn fwy effeithiol.

Cyllid ac Adnoddau

Mae adnoddau byrdymor yn galluogi darpariaeth nawr, ond nid yw hyn yn gynaliadwy ac mae'n gwanhau cynllunio hirdymor a gwerth am arian

21 Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n bragmatig ac yn effeithlon yn y byrdymor. Fodd bynnag, mae'r model ariannu tymor hwy, blaenoriaethu strategol, a threfniadau sicrwydd ar gyfer cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn dal i fod wedi'u datblygu'n annigonol.

22 Ceir symudiad eglur tuag at reolaeth a dyraniad strategol mwy rhanbarthol, ond yn ymarferol:

- mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am ddyrannu cyllid yn y flwyddyn gyntaf a darpariaeth cynlluniau;
- mae gallu mewnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i gael ei ddatblygu;
- nid yw'r model ariannu yn gwbl sefydlog eto;
- mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer sicrhau gwerth am arian, canlyniadau, a buddion yn gyfyngedig.

23 O ganlyniad, mae cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn wynebu heriau capasiti, fforddiadwyedd, a gwydnwch, a allai gyfyngu darpariaeth effeithiol a chynaliadwy.

24 Mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau asesiadau gwerth am arian yn y broses gwneud penderfyniadau, tra'n cydnabod amcanion gwerth cymdeithasol ehangach. Mae'r Adroddiad Monitro a gwerthuso yn cyfeirio at y Fframwaith Gwerth am Arian; fodd bynnag, mae asesiadau yn ôl-weithredol i raddau helaeth ac wedi'u hysgogi gan ofynion ariannu Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn:

- yn cyfyngu'r gallu i asesu a chymharu cynlluniau cyn eu cymeradwyo;
- yn lleihau sicrwydd bod penderfyniadau dyrannu cyllid yn gwella gwerth;
- yn gwanhau gwaith rheoli perfformiad cyson ar draws rhaglenni.

Rheoli Perfformiad

Mae angen cryfhau gweithdrefnau monitro a gwerthuso i ddangos canlyniadau.

25 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu cynllun cyflawni sy'n bodloni canllawiau statudol ond sydd dal ar gam cynnar o ran aeddfedrwydd. Nid yw'r cynllun cyflawni wedi ei ymwreiddio'n llawn eto fel fframwaith a arweinir yn rhanbarthol. Mae blaenoriaethau cynnar yn adlewyrchu cynlluniau lleol presennol i raddau helaeth, yn hytrach na dull rhanbarthol wedi'i ddatblygu'n llawn.

26 Mae'r cynllun yn cael ei weithredu trwy fodel cyllid pontio lle mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am ddarparu a dyrannu cyllid. Mae hyn yn cyfyngu gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i arfer rheolaeth a throsolwg llawn ac i ddangos bod prosiectau unigol yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu buddion rhanbarthol.

27 Mae adrodd ar berfformiad yn dal i fod heb ei ddatblygu'n ddigonol ac nid yw'n darparu sail gref eto ar gyfer rheoli perfformiad na gwneud penderfyniadau. Mae adrodd yn ddisgrifiadol ac wedi'i ysgogi gan broses i raddau helaeth, â defnydd cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad allweddol neu fesurau canlyniadau i ddangos bod y cynllun yn sicrhau buddion.

28 Mae adroddiadau ar gynnydd gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys:

- gweithgarwch ymgynghorwyr;
- niferoedd cynllun,
- data ariannol;
- dyraniadau cyllid, a cherrig milltir.

29 I raddau helaeth, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio gwybodaeth fonitro i fodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru yn hytrach nag i herio perfformiad. Mae'n defnyddio dulliau anghyson o gasglu ac adolygu data ac nid yw'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad eto i hysbysu penderfyniadau neu ysgogi gwelliant.

30 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso, ond nid yw'n ei ddefnyddio. Nid yw Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn nodi'r gwerthoedd cychwynnol y mae'n mesur cynnydd yn eu herbyn yn gyson. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddangos effaith ac yn arwain at werthusiadau mwy disgrifiadol na dadansoddol. Er ei fod wedi derbyn dulliau a chanllawiau i olrhain buddion, nid yw wedi eu defnyddio yn ystod darpariaeth gychwynnol. O ganlyniad, mae mewn perygl o fethu â gallu dangos cynnydd na gwerth am arian yn eglur na defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi gwelliant.

Rheoli Risg

31 Mae trefniadau rheoli risg yn dal i fod yn anffurfiol ac i esblygu. Nid oes unrhyw gofrestr risg trafnidiaeth ffurfiol sy'n rhoi dibyniaeth ar drafodaeth a chrebwyll swyddogion. Er bod risgiau ariannu, darparu, a chapasiti wedi cael eu nodi, nid ydynt wedi'u cefnogi gan reolaethau, mesurau lliniaru na gweithdrefnau uwchgyfeirio eglur eto. Mae'r gwendidau hyn o ran trosolwg a chysondeb yn lleihau hyder o ran gwaith monitro perfformiad a gwneud penderfyniadau cytbwys.

Trosolwg a Chraffu ar Berfformiad

32 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ffurfiol, gan gynnwys Bwrdd y ac is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddarparu trosolwg a chraffu ar berfformiad.

33 O gofio cam cynnar datblygiad y rhaglen, mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol wedi defnyddio ei dri adroddiad cynnydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i adrodd yn bennaf ar ddiweddariadau o ran gweithgareddau a chydymffurfiad yn hytrach na chanlyniadau. Mae adroddiadau wedi canolbwyntio ar yr hyn a wnaed, yr hyn a wariwyd a detholiad cynlluniau. Wrth i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fwrw ymlaen o ran darpariaeth, dylai adroddiadau roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ac effaith fod y gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddeall pa un a yw'n cyflawni ei amcanion a dangos y buddion y mae'n eu darparu.

34 Mae llai o adrodd yn cynnig amlygrwydd cyfyngedig o berfformiad yn erbyn nodau strategol rhanbarthol. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol wedi lleihau adroddiadau ar gynnydd i Fwrdd y Cyd-bwyllgor Corfforedig o sail dri misol (fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dogfennau atodol) i sail chwe misol i leddfu pwysau o ran capasiti adrodd. Mae'r penderfyniad hwn yn cyfyngu gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i reoli risgiau a chraffu ar berfformiad yn brydlon. Ni ystyriwyd y risg hon yn y penderfyniad i ddiwygio cylch gorchwyl yr is-bwyllgor i alluogi llai o adrodd.

Argymhellion

35 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn cyfnod pontio o gynllunio i weithredu. Mae ein hadolygiad wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella. Nod yr argymhellion yw helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gryfhau ei drefniadau i gefnogi darpariaeth ei gynllun trafnidiaeth rhanbarthol.

A1 Er mwyn sicrhau trosolwg effeithiol o ddarpariaeth a pherfformiad, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig**:**

1.1 Gyflwyno cyfres eglur o ddangosyddion perfformiad, mesurau canlyniadau a metrigau gwireddu buddion sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol **(paragraff 27).**

1.2 Gweithredu'r fframwaith monitro a gwerthuso yn llawn, gan gynnwys defnydd o ddulliau presennol i olrhain buddion a dangos gwerth am arian **(paragraffau 24 a 30).**

1.3 Defnyddio data perfformiad yn rhagweithiol ac yn gyson i herio darpariaeth, i ysgogi gwelliant, ac i hysbysu penderfyniadau strategol. **(paragraff 29).**

1.4 Ymwreiddio gweithdrefnau adolygu perfformiad rheolaidd â llwybrau uwchgyfeirio eglur ar gyfer tanberfformiad. **(paragraffau 33 a 34).**

A2 Er mwyn cryfhau gwaith rheoli risg a throsolwg o risg, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig**:**

2.1 Ddatblygu a chadw cofrestr risgiau trafnidiaeth ffurfiol sy'n nodi'r holl risgiau allweddol ac yn neilltuo cyfrifoldeb ac atebolrwydd am reoli a monitro **(paragraff 31).**

2.2 Nodi rheolaethau a chamau lliniaru priodol **(paragraff 31).**

2.3 Sefydlu gweithdrefnau uwchgyfeirio risg diffiniedig, gan gynnwys trothwyon a llwybrau adrodd **(paragraff 31).**

2.4 Sicrhau bod gwybodaeth risg yn cael ei defnyddio i gefnogi gwaith monitro perfformiad cyson ac i hysbysu'r broses gwneud penderfyniadau **(paragraff 34)**

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar ba un a oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig drefniadau ar waith i gefnogi ei ddyletswyddau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a sicrhau gwerth am arian.

Ni wnaethom asesu prosiectau trafnidiaeth unigol na darpariaeth gwasanaethau gweithredol. Ni wnaethom gyflawni gwaith archwilio ariannol manwl yn ystod yr adolygiad. Cyflawnwyd ein gwaith maes yn ystod mis Mehefin 2026.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Rhoddodd ein harchwiliad ystyriaeth i'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi esbonio ei ddyletswyddau cyfreithiol, ei nodau, a'i brif flaenoriaethau ar gyfer cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn eglur?
- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi rhoi adnoddau digonol ar waith i gefnogi gweithgarwch trafnidiaeth rhanbarthol?
- A yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi datblygu prosesau priodol i reoli darpariaeth, i olrhain cynnydd, ac i werthuso pa un a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni?

Meini prawf

Fe wnaethom ddefnyddio'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 i hysbysu ein meini prawf archwilio.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion ac aelodau, a dadansoddi data.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

v1.0/P2559